

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Dyled a'r pandemig

Tachwedd 2021



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddCydraddoldeb](https://twitter.com/SeneddCydraddoldeb)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dyled a'r pandemig

Tachwedd 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Jane Dodds AS
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



Altaf Hussain AS
Ceidwadwyr Cymreig



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru



Ken Skates AS
Llafur Cymru



Sioned Williams AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	6
Casgliadau	8
1. Cefndir	9
Casglu tystiolaeth	9
2. Effaith y pandemig ar ddyled yng Nghymru	10
Effaith dyled ar wahanol grwpiau	13
Dyled a dibyniaeth	15
Ffactorau sy'n debygol o gynyddu problemau dyled	16
Ein barn ni	18
3. Adennill dyledion yn y sector cyhoeddus	22
Dyled Treth Gyngor	24
Ein barn ni	25
4. Dyled tai	27
Troi allan	27
Grant caledi i denantiaid	29
Ein barn ni	30
Credyd fforddiadwy	32
Y Gronfa Cymorth Dewisol	33
Ein barn ni	35

Rhagair y Cadeirydd

Ar ddechrau pandemig COVID-19, roedd pryderon eang y gallai'r mesurau sydd eu hangen i gadw'r argyfwng iechyd dan reolaeth arwain yn gyflym at drychineb economaidd. Bu'n rhaid i bobl â swyddi na ellir eu gwneud o bell wneud y dewisiadau anoddaf ynghylch parhau i gael incwm a hwythau yn aml yn bobl a oedd fwyaf mewn perygl am resymau eraill – gan gynnwys pobl a oedd yn byw mewn cartrefi gorllawn neu a oedd eisoes yn dioddef o iechyd gwael.

Yn ffodus, helpodd pecyn eang o gymorth gan y llywodraeth i liniaru rhai o effeithiau gwaethaf y dirywiad economaidd a achoswyd gan y pandemig. Ond mae cynnydd mewn costau byw a diwedd mesurau cymorth y llywodraeth i gyd yn arwydd ein bod yn wynebu cyfnod anodd yn y misoedd i ddod. Gyda hyn mewn golwg, aethom ati i edrych ar effaith y pandemig ar ddyled a'r profiad o fod mewn dyled.

Mewn cyfnod o galedi economaidd, mae pobl yn aml yn cael eu gorfodi i fynd i ddyled er mwyn ymateb i broblemau ariannol uniongyrchol. Gall yr ateb tymor byr hwn arwain yn hawdd at broblemau hirdymor i unigolion. Er nad yw'r broblem o ran dyled wedi bod cynddrwg ag yr ofnwyd i ddechrau, mae ein gwaith wedi canfod bod 18 y cant o oedolion yng Nghymru – cyfran uwch nag yn Lloegr neu'r Alban – wedi profi caledi economaidd o ganlyniad i'r pandemig. Mae dyled a phroblemau o ran talu biliau'r cartref a'r dreth gyngor i gyd wedi cynyddu, i raddau sylweddol mewn rhai achosion. Disgwylwn i rai o'r problemau hyn fynd yn waeth cyn iddynt wella.

Mae ein hadroddiad yn awgrymu nifer o gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod cyngor a chymorth yn cyrraedd y rhai sydd ei angen, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Mae angen gwell data arnom i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ac i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi dyled. Mae costau ynni sy'n cynyddu yn golygu bod angen i ni gyflymu cynlluniau i ôl-osod cartrefi cymdeithasol fel elfen allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae'r gwaith hwn wedi bwrw goleuni ar agwedd bwysig ar yr her i gyflawni Cymru Fwy Cyfartal. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith ac edrychaf ymlaen at graffu ar y cynnydd yn y blynyddoedd i ddod.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai uned data cydraddoldeb Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau yn y sector i gasglu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru gan ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022-23, a dadansoddi'r data hynny yn ôl nodweddion gwarchodedig..... Tudalen 19

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil arbenigol i'r berthynas rhwng dibyniaeth a dyled ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â'r cynnydd. Dylai'r ymchwil hon gynnwys dibyniaeth ar ei holl ffurfiau gan gynnwys gamblo, alcohol a dibyniaeth ar sylweddau eraill, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a'r amserlenni ar gyfer cwblhau a chyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2022..... Tudalen 19

Argymhelliad 3. Yn ei hymateb, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau ychwanegol y bydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo gwasanaethau cyngor ar ddyled i grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd mewn mwy o berygl o fynd i ddyled, er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt..... Tudalen 20

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau diwygiedig o fewn y tri mis nesaf i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, er mwyn sicrhau eu bod ar waith ymhell cyn y cynnydd nesaf i'r cap ar brisiau ynni a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2022. Tudalen 21

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder yn ei Chyllideb Ddrafft ynglŷn â sut y bydd yn dyrannu digon o arian hyd at 2024-25 i gyflymu cynlluniau i sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn cyrraedd Sgôr Effeithlonrwydd Ynni A i liniaru'r cynnydd mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i gostau ynni sy'n cynyddu..... Tudalen 21

Argymhelliad 6. Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o Brotocol Treth Gyngor Cymru asesu a ddylid cryfhau'r Protocol, gan gynnwys a ddylid ei roi ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn fel mater o frys a'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2022 fan bellaf. Tudalen 26

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb cyflwyno 'coelcerth dyledion' mewn perthynas ag agweddau ar ddyled sector cyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thu hwnt, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i gasgliadau erbyn diwedd Mehefin 2022. Tudalen 26

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau pellach y mae wedi'u cymryd i wella ymwybyddiaeth o gyfraith tai Cymru ymhlith swyddogion rheng flaen yr heddlu. Tudalen 31

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r ysgogiadau deddfwriaethol neu bolisi sydd ar gael iddi fel nad yw tenantiaid ar draws pob deiliadaeth yn colli eu cartrefi oherwydd dyled a gronnwyd o ganlyniad i'r pandemig..... Tudalen 31

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y cyfnod hysbysu o chwe mis yn parhau i fod mewn grym hyd nes y daw Deddf Rhentu Cartrefi 2016 i rym. Tudalen 31

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun Grant Caledi i Denantiaid i gynnwys tenantiaid incwm isel mewn tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai..... Tudalen 32

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu hyrwyddo ffynonellau credyd fforddiadwy ymhlith y rhai sydd mewn mwy o berygl o ddyled dros y chwe mis nesaf. Tudalen 35

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyblygrwydd a gyflwynwyd i'r Gronfa Cymorth Dewisol o ganlyniad i'r pandemig yn nodwedd barhaol o'r gronfa. Tudalen 36

Argymhelliad 14. Er mwyn llywio'r gwaith paratoi ar gyfer contract newydd y Gronfa Cymorth Dewisol o fis Ebrill 2023, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r Gronfa ar ei ffurf bresennol i gynnwys:

- adolygiad o feini prawf cymhwysra;
- opsiynau ar gyfer symleiddio'r broses o wneud cais; ac
- adolygiad o'r canllawiau sy'n gysylltiedig â cheisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon hawdd eu deall a'u bod wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir. Tudalen 36

Casgliadau

Casgliad 1. Byddwn yn cadw golwg ar faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyngor ar ddyled a pha mor gynaliadwy ydyw fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, y disgwylir iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar 20 Rhagfyr 2021. Tudalen 18

Casgliad 2. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan y Gweinidog yn amlinellu'r achos dros Lywodraeth y DU yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i wledydd y DU drwy'r ardoll cyngor ar ddyled y byddai Cymru'n cael cyfran gymesur ohoni. Tudalen 19

Casgliad 3. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at bob un o'r pedwar heddlu gyda chopi o'r adroddiad hwn ac yn gofyn iddynt ymateb i'n pryderon ynghylch yr heddlu'n cymryd rhan mewn achosion o droi allan. Tudalen 31

1. Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion a chasgliadau gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch effaith pandemig COVID-19 ar ddyled. I gael gwybodaeth am gefndir yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys y cylch gorchwyl **ewch i hafan yr ymchwiliad.**

Casglu tystiolaeth

2. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gyfres wedi'i thargedu o randdeiliaid a oedd yn cynnwys: elusennau cyngor ariannol, undebau credyd, cynrychiolwyr sefydliadau tai, llywodraeth leol a chydaddoldeb. Cynhaliodd Pwyllgor Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd bedwar grŵp ffocws ar-lein hefyd i gasglu barn cynghorwyr dyled a staff undebau credyd. Mae crynodeb o'r trafodaethau hynny ar gael ar-lein.

3. Clywodd y Pwyllgor gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar 20 Hydref 2021.

4. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad.


Os yw dyled wedi effeithio arnoch chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod, mae nifer o sefydliadau a all roi cyngor diduedd yn rhad ac am ddim i chi:

- Mae Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor drwy Advicelink Cymru ar **0800 702 2020** neu gan **siarad â chynghorydd ar-lein.**
- Gall Dewis Cymru eich helpu i ddod o hyd i **wasanaethau arian a chyngor yn eich ardal chi.**
- Mae Gwasanaeth Arian a Phensiynau Llywodraeth y DU wedi creu gwefan **Helpwr Arian** sy'n rhoi cyngor ar sut i ymdrin â dyled.
- Mae StepChange yn cynnig cyngor am ddim ynghylch dyled drwy ffonio **0800 138 1111** neu drwy ddefnyddio'r **gwasanaeth cyngor ar ddyledion ar-lein.**

2. Effaith y pandemig ar ddyled yng Nghymru

5. Ym mis Tachwedd 2020, roedd ymchwil gan Gyngor ar Bopeth yn amcangyfrif bod dros 280,000 o bobl yng Nghymru wedi methu â thalu biliau'r cartref ers dechrau'r cyfyngiadau symud, gan gronni ôl-ddyledion o £73 miliwn.¹ Cafodd problemau dyled yr oedd rhai pobl eisoes yn eu hwynebu eu gwaethygu gan y pandemig, gydag eraill yn mynd i ddyled am y tro cyntaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod 34 y cant o'r rhai a aeth i ddyled yn dweud nad oeddent wedi gallu fforddio bwyd neu anghenion sylfaenol eraill ers dechrau'r pandemig.²
6. Amlygodd adroddiad eleni gan Sefydliad Bevan, 'Debt in the pandemic', fod dyled broblemus wedi dod yn fwy o broblem i'r rhai a oedd eisoes mewn mwy o berygl yn hyn o beth; ond nid oedd wedi effeithio ar y boblogaeth gyfan i raddau mor ddifrifol ag yr ofnwyd ar ddechrau'r pandemig.³

Ffigur 1: Diagram yn dangos canran yr aelwydydd yng Nghymru a oedd wedi benthyg arian neu'n hwyr yn talu bil rhwng mis Ionawr a mis Mai 2021



Ffynhonnell: Sefydliad Bevan, [A snapshot of poverty in spring 2021](#)

7. Canfu StepChange fod 21 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru yn cael anawsterau ariannol, a bod gan 7 y cant broblem o ran dyled.⁴ Roedd cyfran uwch o oedolion Cymru (18 y cant) wedi wynebu caledi ariannol yn ystod y pandemig nag yn Lloegr neu'r Alban.

¹ Cyngor ar Bopeth, '[Coronavirus Debts: Estimating the size of lockdown arrears in Wales](#)'

² Ibid.

³ Sefydliad Bevan, '[Debt in the Pandemic](#)' – Medi 2021


⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, [StepChange](#)

8. Trafododd ein grwpiau ffocws y math o ymholiadau a gafwyd gan gleientiaid; roedd yn ymddangos mai costau sefydlog oedd y pryder mwyaf yn ystod y pandemig.⁵ Esboniodd un cyfranogwr o Aberconwy:

*"Byddwn i'n dweud, cyn y pandemig, mai dyled defnyddwyr oedd y brif broblem. Yn y pandemig, roedd yr ymholiadau'n ymwneud ychydig yn fwy â chostau sefydlog fel y rhent, y dreth gyngor, y biliau tanwydd. Y costau sefydlog hynny na allwch ddianc oddi wrthynt; yn hytrach na benthyciadau."*⁶

9. Mae hyn yn cyd-fynd ag ystadegau a nodir yn nhystiolaeth ysgrifenedig StepChange i'r Pwyllgor.⁷

Ffigur 2: Canran y cleientiaid StepChange sy'n hwyr yn talu biliau yn ôl math o filiau, Ionawr 2021



Ffynhonnell: StepChange, Cyflwyniad i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i lefelau dyled yn ystod y pandemig a dyled bersonol, dyled aelwydydd, a dyled defnyddwyr


⁵ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

⁶ Ibid.

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, StepChange

10. Nododd Sefydliad Bevan sut mae peidio â chael digon o arian i dalu am gostau anghenion pob dydd wedi effeithio ar aelwydydd yn ystod y pandemig, gyda chartrefi'n gwario llai ar fwyd a dillad i oedolion; ar hanfodion megis gwresogi, trydan a ddŵr; ac ar gostau trafnidiaeth.⁸

Ffigur 3: Canran yr aelwydydd a oedd yn gwario llai ar hanfodion, Ionawr-Mai 2021



Ffynhonnell: Sefydliad Bevan, [**A snapshot of poverty in spring 2021**](#)

11. Cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl a ofynnodd am gyngor ar ddyledion yn ystod y pandemig. Er y rhagwelwyd y byddai'r galw am gyngor ar ddyled yn cynyddu'n ddramatig ar ddechrau'r pandemig, tynnodd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, Cyngor ar Bopeth, a StepChange sylw at y ffaith nad oedd hyn wedi digwydd.⁹ Cytunodd y grwpiau ffocws eu bod wedi gweld lleihad amlwg yn nifer yr unigolion a oedd yn gofyn am gyngor ar ddyledion pan gyflwynwyd y cyfyngiadau am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2020.

⁸ Sefydliad Bevan, [**A snapshot of poverty in spring 2021**](#)

⁹ Gwasanaeth Arian a Phensiynau, [**'Tri o ganlyniadau Covid | Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau'**](#); tystiolaeth ysgrifenedig [**StepChange**](#); Cyngor ar Bopeth, [**'Debt impact report 2020/21'**](#)

*"...Roedden ni'n dawel. Dwi ddim yn siŵr pam, ond roedden ni'n dawel. Rwy'n gwybod fy mod i dal yn ei gymharu, ond yr unig flwyddyn arall dwi'n cofio pan yr oedd hi mor dawel â hynny oedd blwyddyn gyntaf y wasgfa gredyd, felly dyna oedd y gymhariaeth agosaf."*¹⁰

12. Roedd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn dadlau mai gohirio yn hytrach na gwadu'r problemau a wnaeth hyn, er gwaethaf y cynnydd mewn galw ar y dechrau, a'i bod yn debygol y bydd mwy o alw am gyngor ar ddyledion yn y dyfodol wrth i effaith ariannol y pandemig barhau i waethgu problemau dyled.¹¹

Effaith dyled ar wahanol grwpiau

13. Canfu sefydliadau fel StepChange, Cyngor ar Bopeth a Sefydliad Bevan fod rhai grwpiau yn fwy tebygol o fod mewn dyled nag eraill.¹² Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl sy'n ddi-waith neu mewn swyddi heb sicrwydd; pobl y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu gwaith; rhieni sengl; rhieni â phlant ifanc; rhentwyr; pobl o rai cymunedau lleiafrifoedd ethnig; a phobl ag anableddau. Nododd Peter Tutton o StepChange mewn tystiolaeth lafar fod llawer o'r grwpiau hyn wedi ymddangos i raddau anghymesur yn eu llwythi achosion cyngor ar ddyled ers dirwasgiad 2008.¹³

14. Dywedodd Cyngor ar Bopeth fod y pandemig wedi cael effaith anghyfartal iawn ar sefyllfa ariannol cartrefi, ac er bod llawer wedi gweld gwelliannau, nododd fod aelwydydd incwm isel wedi bod yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio eu cynilion neu o weld eu lefelau dyled yn cynyddu o ganlyniad i'r pandemig.¹⁴

15. O ran effeithiau anghymesur, tynnodd Sefydliad Bevan sylw at y ffaith bod aelwydydd ag incwm blynyddol o dan £40,000 y flwyddyn yn llawer mwy tebygol o fod wedi cronni dyledion o gymharu ag aelwydydd incwm uwch. At hynny, canfuwyd bod pobl sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn hwyr yn talu pob bil mawr o gymharu ag unrhyw grŵp arall.¹⁵

¹⁰ **Crynodeb o'r grwpiau ffocws**

¹¹ Gwasanaeth Arian a Phensiynau, **'Tri o ganlyniadau Covid | Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau'**

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, **StepChange**; Cyngor ar Bopeth **'Coronavirus Debts: Estimating the size of lockdown arrears in Wales'**; Sefydliad Bevan, **'Debt in the Pandemic'** – Medi 2021

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 170 – 20 Medi 2021

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Cyngor ar Bopeth**

¹⁵ Sefydliad Bevan, **'Debt in the Pandemic'** – Medi 2021

16. Galwodd Chwarae Teg a Thîm Cymorth Ieuencid Ethnig Cymru (EYST Cymru) am ddata gwell am effaith dyled ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Nododd Chwarae Teg ei bod yn glir bod angen data wedi'u dadgyfuno ynghylch baich dyled ar fenywod gan fod y data sy'n bodoli yn rhagdybio bod adnoddau'r cartref yn cael eu cyfuno.¹⁶ Dywedodd Cerys Furlong:

*"Of the data that's there, it's difficult to segregate it. Most measures of poverty and financial resources assume that the household resource is pooled. We know that's not the case, and that particularly affects women. It particularly affects particular women. So, I think evidence needs to be collected more regularly. It should be intersectional, because we know that different groups of women experience things in different ways, and it should also not just look at debt or not debt, but look at the scale and the nature of debt, what is causing that and the impact of that on the individual and the family."*¹⁷

17. Tynnodd Chwarae Teg sylw at effaith dyled ar rieni sengl, gan nodi bod ymchwil gan StepChange wedi canfod bod 22 y cant o'i gleientiaid yn rhieni sengl, o gymharu â 6 y cant o boblogaeth y DU.¹⁸ Gwnaeth y sefydliad hefyd ddyfynnu gwaith gan Gymorth i Fenywod a ganfu fod 43 y cant o fenywod a oedd wedi goroesi cam-drin domestig wedi mynd i ddyled o ganlyniad i'r cam-drin hwnnw.¹⁹

18. Nododd gohebiaeth gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru (FSB Cymru) nad oes gan lawer o fusnesau bach gyfrifon busnes, ac o ganlyniad fod unrhyw ddyled busnes yn ddyled bersonol iddynt.²⁰ At hynny, yn aml gall asedau personol fel tai fod yn warantau cyfochrog ar gyfer y dyledion hyn, gan adael llawer o berchnogion busnesau bach yn agored iawn i broblemau o'r fath.²¹

19. Nododd papur y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod 83 y cant o'r rhai sydd wedi defnyddio gwasanaethau cynghori a ariannwyd drwy'r Gronfa Gynghori Sengl yn 2020-21 yn dod o un "grŵp blaenoriaeth" o leiaf: menywod, pobl o dan 25 oed neu dros

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Chwarae Teg**

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 148 – 4 Hydref 2021

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Chwarae Teg**

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 117 – 4 Hydref 2021

²⁰ **Gohebiaeth gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ynglŷn ag ymchwiliad y Pwyllgor i ddyled a'r pandemig**

²¹ Ibid.

55 oed, pobl ag anabledd, problem iechyd meddwl neu gorfforol, neu bobl o gymuned lleiafrifoedd ethnig.²² Mae hyn yn uwch na'r dangosydd perfformiad o 80 y cant a nodir ym mhapur y Gweinidog. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch casglu data ar yr effaith ar fenywod yn benodol, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu 'uned data cydraddoldeb' a fyddai'n ystyried y materion hyn yn fanylach.²³

20. O ran cyllid ar gyfer grwpiau penodol, dywedodd papur y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyllid sector gwirfoddol COVID-19 i ddarparu £2.5 miliwn i sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl; £1.05 miliwn i sefydliadau sy'n cefnogi pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig; a bron i £0.5 miliwn i sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth cynghori ac eirioli.²⁴ Tynnodd y Gweinidog sylw at gynnydd o 4 y cant mewn cyllid i sefydliadau arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol²⁵ yn y trydydd sector, fel y gallant ymateb i'r cynnydd o ran galw.²⁶

Dyled a dibyniaeth

21. Yn 2018, nododd adroddiad a gomisiynwyd gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol y bydd cynghorydd dyled amser llawn, mewn blwyddyn, yn cael 84 datgeliad o ddibyniaeth gan gleientiaid, fodd bynnag, nid oedd bron i hanner y cynghorwyr dyled wedi cael unrhyw hyfforddiant ar ddibyniaeth ac nid oedd dros hanner wedi cael hyfforddiant ar ddibyniaeth ar hapchwarae. Mae'n debygol bod y ffigur hwn yn cuddio maint y broblem, oherwydd dywedodd cynghorwyr y byddai cleientiaid yn aml yn ceisio cuddio eu dibyniaeth.²⁷

22. Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'i swyddog wrth y Pwyllgor wrth sôn am y 25 i 30 o gynghorwyr dyled a ariennir drwy Gyngor ar Bopeth a'r Gronfa Gyngori Sengl, fod pob cynghorydd dyled yn dod i gysylltiad â saith o gleientiaid sy'n datgelu problem o ran dibyniaeth mewn mis arferol.²⁸

²² **Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru**

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 50 – 20 Hydref 2021

²⁴ **Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru**

²⁵ VAWDASV yw'r acronym a ddefnyddir yn Saesneg ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 46 – 20 Hydref 2021

²⁷ Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, **Vulnerability: the experience of debt advisers** – Tachwedd 2018

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 19-21 – 20 Hydref 2021

Ffactorau sy'n debygol o gynyddu problemau dyled

23. Lleisiodd Peter Tutton o StepChange; Cerys Furlong o Chwarae Teg; Claire Savage o Undebau Credyd Cymru a Jason Roberts o Ganolfan Gyfraith Speakeasy bryderon am ddod â'r cynnydd o £20 mewn credyd cynhwysol i ben a goblygiadau posibl hyn ar gyfer lefelau dyled.²⁹ Dywedodd Peter Tutton y bydd cael gwared ar y cynnydd yn arwain at sefyllfa lle mae gan tua dwy ran o dair yn fwy o bobl ar gredyd cynhwysol gyllidebau negyddol.³⁰

24. Maes arall a oedd yn destun pryder oedd y cynnydd mewn prisiau ynni a'r effaith y gallai hyn ei chael ar dlodi tanwydd. Mynegodd Claire Savage o Undebau Credyd Cymru bryderon am ôl-ddyledion sy'n cynyddu wrth i amser fynd yn ei flaen, yn enwedig o'r hydref i'r gaeaf, a thynnodd sylw at y cynnydd tebygol mewn costau byw, yn enwedig o ran prisiau bwyd a thanwydd.³¹

25. Cyfeiriodd Cartrefi Cymunedol Cymru at y cynnydd ym mhrisiau bwyd a thanwydd fel maes sy'n peri pryder. Gan nodi natur dros dro rhywfaint o'r cymorth a gynigir gan y llywodraeth yn ystod y pandemig, dywedodd y sefydliad fod yr heriau i gadernid ariannol pobl yn parhau, a bod yr angen am gymorth yn fwy nag erioed.³²

26. Rhannodd llawer o gyfranogwyr ar draws yr holl grwpiau ffocws bryderon nad yw gwir effaith y pandemig ar y rhai sydd mewn dyled neu'n wynebu caledi ariannol yn amlwg eto. Dywedwyd bod y sefyllfa debygol dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf yn "storm berffaith" neu'n "tswnami". Dywedodd un o gyfranogwyr y grŵp ffocws o Ronda Cynon Taf:

*"Yr hyn sy'n fy mhoeni'n fawr yw cynnydd posibl o 30 y cant mewn prisiau nwy a thrydan yn 2022. Mae hynny'n mynd i wthio pobl i dlodi ar lefel oes Fictoria. Ac mae'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, mae llai o gyflenwyr tanwydd oherwydd eu bod yn mynd i'r wal, ac mae'r cap ar bris ynni wedi'i godi ... Rwy'n poeni'n fawr am y flwyddyn nesaf."*³³

27. Yn ei phapur, gwnaeth y Gweinidog gydnabod yr heriau economaidd sydd o'n blaenau, gan gynnwys diddymu'r cynnydd o £20 mewn Credyd Cynhwysol, a dywedodd y

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 144 – 16 Medi 2021; Cofnod y Trafodion, paragraff 172 – 4 Hydref 2021; Cofnod y Trafodion, paragraff 149 – 20 Medi 2021; Cofnod y Trafodion, paragraff 272 – 4 Hydref 2021

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 176 – 20 Medi 2021

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 272 – 4 Hydref 2021

³² Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, Cartrefi Cymunedol Cymru

³³ **Crynodeb o'r grwpiau ffocws**

bydd Llywodraeth Cymru yn “parhau i sganio’r gorwel er mwyn canfod ffactorau economaidd a chymdeithasol a fydd yn cael effaith negyddol ar ffyniant y bobl sydd â’r angen mwyaf, megis effaith bwriad Llywodraeth y DU i gynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 1 Ebrill 2022 ymlaen.”³⁴

28. Mewn tystiolaeth lafar, pwysleisiodd y Gweinidog y cynnydd mewn cyllid a oedd ar gael ar gyfer gwasanaethau cynghori drwy’r Gronfa Gyngori Sengl. Dadleuodd y Gweinidog fod y cyllid wedi dangos ei fod yn gadarn iawn o ran fframwaith cydgysylltiedig o wasanaethau cynghori lles cymdeithasol ledled Cymru.³⁵

29. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ailgyflwyno ei Chynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm, a oedd wedi bod yn ‘llwyddiannus iawn’ o ran cynyddu nifer y teuluoedd ar incwm isel sy’n manteisio ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol.³⁶ Mae adroddiad terfynol y cynllun gweithredu pwyslais ar incwm ar gyfer tlodi plant yn tynnu sylw at y ffaith bod yr ymgyrch i hyrwyddo budd-daliadau ledled Cymru a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 wedi arwain at gynydd o dros £650,000 o ran budd-daliadau sy’n cael eu hawlio, tra bod prosiectau peilot a ariannwyd ganddi wedi ymgysylltu â 1,440 o aelwydydd a gynorthwywyd i hawlio bron i £2.5 miliwn yn fwy mewn budd-daliadau yr oeddent yn gymwys ar eu cyfer.³⁷

30. Yn 2020-21, cafodd Llywodraeth Cymru £3.458 miliwn drwy’r ardoll cyngor ar ddyled ar gyfer y DU gyfan, a ddyrennir yn ôl cyfran y boblogaeth a lefelau dyled. Roedd hyn yn cynnwys y dyraniad cychwynnol o £2.83 miliwn a nodwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol,³⁸ a £625,000 ychwanegol o ganlyniad i gynydd untro i’r ardoll cyngor ar ddyled a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2020.³⁹ Darparwyd cyllid ychwanegol yn 2020-21 fel rhan o £38 miliwn o wariant ychwanegol ar gyngor ar ddyled gan Lywodraeth y DU.⁴⁰ Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, galwodd y Gweinidog ar Lywodraeth

³⁴ **Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru**

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 10 – 20 Hydref 2021

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 38 – 20 Hydref 2021

³⁷ Llywodraeth Cymru, **Tlodi plant: adroddiad terfynol ar y cynllun gweithredu pwyslais ar incwm**

³⁸ Awdurdod Ymddygiad Ariannol, **FCA regulated fees and levies: Rates proposals 2020/21**

³⁹ Awdurdod Ymddygiad Ariannol, **Debt Advice levy rates for 2020/21 – Additional Funding: Consultation Paper**

⁴⁰ Trysorlys EM, **Almost £38 million support package for debt advice providers helping people affected by Coronavirus**, 9 Mehefin 2020

y DU i ddarparu cyllid ychwanegol drwy gyfran Cymru o ardoll ariannol y DU i helpu gyda'r cynnydd mewn galw a ragwelir yn y misoedd i ddod.⁴¹

Ein barn ni

Y darlun eang a'r rhagolygon

Mae effaith pandemig COVID-19 o ran dyled wedi effeithio ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd. Er bod rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu nad yw'r argyfwng iechyd hyd yma wedi troi'n argyfwng dyled bersonol fel yr oedd rhai yn ofni ar ddechrau'r pandemig, mae'n amlwg bod rhai grwpiau'n cael mwy o anawsterau nag eraill. Roedd llawer o'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod yn wynebu problemau dyled cyn y pandemig, ac mae'r flwyddyn a hanner ddiwethaf ond wedi gwaethygu eu hanawsterau. Mae arwyddion y bydd y rhagolygon ariannol yn dirywio dros y misoedd nesaf i lawer o unigolion ac aelwydydd.

Gwnaeth ymyriadau polisi gan lywodraethau Cymru a'r DU megis Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (ffyrlo) a'r moratoriwm ar droi allan helpu i liniaru canlyniadau mwyaf difrifol y pandemig a'r dirywiad economaidd o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mae'r ymyriadau hyn bellach naill ai wedi dod i ben neu ar fin dod i ben, a gallai'r wlad fod yn wynebu "storm berffaith" o heriau economaidd gan gynnwys prisiau a chostau byw sy'n cynyddu.

Rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau cyngor ariannol a chynghor ar ddyled yn cynyddu yn y misoedd i ddod. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol o £1.1 miliwn ar gyfer gwasanaethau cyngor yn 2021-22 ac rydym yn disgwyl gweld lefelau tebyg o gymorth ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2022-23. O ran cyllid o ardoll cyngor ar ddyled y DU, cytunwn fod angen i'r Gweinidog amlinellu ei hachos mewn mwy o fanylder er mwyn i Lywodraeth y DU ei gwneud yn ofynnol i fenthycwyr gyfrannu mwy at yr ardoll er mwyn helpu i gefnogi'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau cyngor ar ddyled dros y misoedd i ddod.

Casgliad 1. Byddwn yn cadw golwg ar faint o gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyngor ar ddyled a pha mor gynaliadwy ydyw fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, y disgwylir iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar 20 Rhagfyr 2021.

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 11 – 20 Hydref 2021

Casgliad 2. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan y Gweinidog yn amlinellu'r achos dros Lywodraeth y DU yn cynyddu'r cyllid sydd ar gael i wledydd y DU drwy'r ardoll cyngor ar ddyled y byddai Cymru'n cael cyfran gymesur ohoni.

Data

Mae'r prinder data cynhwysfawr wedi'u dadgyfuno ar ddyled yn ei gwneud yn anoddach gwybod pa grwpiau sy'n wynebu anawsterau o ran dyled. Mae llawer o'r data sydd ar gael yn dod o ymchwil ac arolygon a gomisiynwyd gan elusennau a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector. Fel y nododd Chwarae Teg, mae'r dybiaeth fod adnoddau cartrefi'n cael eu cyfuno yn debygol o guddio faint o broblemau dyled sy'n bodoli mewn gwirionedd i unigolion â nodweddion gwarchodedig – yn enwedig menywod. Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau o ran adnoddau a chapasiti Lywodraeth Cymru a'i gweision sifil, cytunwn y byddai'n fuddiol archwilio opsiynau ar gyfer datblygu rhagor o ddata o ansawdd uwch, wedi'u dadgyfuno, ynghylch dyled bersonol. Hoffem weld Llywodraeth Cymru naill ai'n gweithio gyda'i huned data cydraddoldeb ei hun neu gyda phartneriaid yn y sector i ddatblygu data gwell wedi'u dadgyfuno ynghylch dyled.

Argymhelliad 1. Dylai uned data cydraddoldeb Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau yn y sector i gasglu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru gan ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022-23, a dadansoddi'r data hynny yn ôl nodweddion gwarchodedig.

Dyled a dibyniaeth

Nid yw cynnig cyngor a chymorth i liniaru effaith dyled broblemus mor effeithiol â mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi dyled. Buom yn archwilio rhywfaint o dystiolaeth mewn perthynas â dibyniaeth fel ffactor sylfaenol sy'n achosi dyled ond credwn fod angen rhagor o waith yn y maes hwn, yn enwedig o ran casglu data a thystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi rhagor o wybodaeth i ni am y berthynas rhwng dibyniaeth a dyled. Fodd bynnag, hoffem ei gweld yn mynd ymhellach ac yn comisiynu ymchwil arbenigol yn y maes hwn.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil arbenigol i'r berthynas rhwng dibyniaeth a dyled ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynglŷn â'r cynnydd. Dylai'r ymchwil hon gynnwys dibyniaeth ar ei holl ffurfiau gan gynnwys gamblo, alcohol a dibyniaeth ar sylweddau eraill, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth

ddiweddaraf am y cynnydd a'r amserlenni ar gyfer cwblhau a chyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2022.

Ymwybyddiaeth o wasanaethau a mynediad atynt

Mae cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed fel y gellir eu cefnogi yn hollbwysig. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi sicrhau bod cyllid COVID-19 ychwanegol ar gael i helpu i roi cymorth i'r grwpiau hyn. Credwn hefyd y bydd gwaith da i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn yn hollbwysig yn y misoedd i ddod wrth i ni ddod allan o'r pandemig.

Argymhelliad 3. Yn ei hymateb, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau ychwanegol y bydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo gwasanaethau cyngor ar ddyled i grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd mewn mwy o berygl o fynd i ddyled, er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

Tlodi tanwydd

Er nad oedd yn ganolog i'n hystyriaethau ar ddechrau'r ymchwiliad hwn, mae'r cynnydd diweddar mewn prisiau ynni wedi cynyddu'r pryderon am dlodi tanwydd. Mae gan brisiau ynni sy'n codi botensial i achosi caledi economaidd i lawer o aelwydydd ac unigolion – yn enwedig y rhai a oedd eisoes mewn perygl o fod mewn dyled.

Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud y bydd yn defnyddio rhywfaint o'r cyllid canlyniadol Barnett o £25 miliwn a gafwyd o ganlyniad i Grant Cymorth Aelwydydd Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr⁴² er mwyn ceisio lliniaru effaith unrhyw gynnydd mewn prisiau ynni, ond nid yw'n glir y bydd y cyllid untro hwn yn ddigonol mewn unrhyw ffordd.

Ers i'r Pwyllgor orffen cymryd tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cymru Sero Net drafft Garbon 2 ar gyfer 2021-25, sy'n cynnwys ei chynlluniau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi.⁴³ Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd hyn "yn hanfodol i gyrraedd Cyllideb Garbon 2 a'n targed sero net". Bydd yn defnyddio'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a Safon Ansawdd Tai Cymru i ôl-osod cartrefi cymdeithasol, a bydd hefyd yn datblygu mecanweithiau i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat a chartrefi perchen-feddianwyr.⁴⁴ Mae

⁴² Cyfarfod Llawn Senedd Cymru, Cofnod y Trafodion, [paragraffau 59-62](#) – 20 Hydref 2021

⁴³ Llywodraeth Cymru, [Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 \(2021-25\)](#)

⁴⁴ Ibid, tudalennau 105-107

Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi £150 miliwn o gyllid ychwanegol i ôl-osod cartrefi cymdeithasol gyda thechnolegau ac inswleiddio newydd.⁴⁵ Mae'r Gweinidog wedi datgan y bydd hyn yn cynnwys £50 miliwn ychwanegol ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2022-23 a 2024-25.⁴⁶

Rydym yn croesawu dyraniad Llywodraeth Cymru o £150 miliwn o gyllid ychwanegol i ôl-osod cartrefi cymdeithasol fel man cychwyn i gyflymu mesurau effeithlonrwydd ynni er mwyn lliniaru'r cynnydd posibl mewn tlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon. Nodwn fod yr Adolygiad o Wariant y DU yn rhoi eglurder i Lywodraeth Cymru ar ei setliad ariannu hyd at 2024-25, sy'n rhoi cyfle i amlinellu'r cynlluniau ariannu ar gyfer cyfnod cyllideb garbon 2021-25 yn ei gyfanrwydd. Ni ellir tanbrizio pa mor fawr yw'r her, o gofio bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dweud y byddai angen buddsoddiad o £15 biliwn i ôl-osod er mwyn rhoi terfyn ar dlodi tanwydd erbyn 2030.⁴⁷

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau diwygiedig o fewn y tri mis nesaf i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, er mwyn sicrhau eu bod ar waith ymhell cyn y cynnydd nesaf i'r cap ar brisiau ynni a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2022.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder yn ei Chyllideb Ddrafft ynglŷn â sut y bydd yn dyrannu digon o arian hyd at 2024-25 i gyflymu cynlluniau i sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn cyrraedd Sgôr Effeithlonrwydd Ynni A i liniaru'r cynnydd mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i gostau ynni sy'n cynyddu.

⁴⁵ Llywodraeth Cymru, **£150 miliwn ar gyfer inswleiddio, ynni glân a lleihau carbon mewn tai cymdeithasol**

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 165 – 2 Tachwedd 2021

⁴⁷ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, **Gallwn roi diwedd ar dlodi tanwydd gyda chynllun buddsoddi ôl-osod £15bn ar gyfer ein cartrefi, meddai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

3. Adennill dyledion yn y sector cyhoeddus

31. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd Karen Davies o Purple Shoots a Responsible Finance fod sefydliadau'r sector cyhoeddus weithiau'n llym eu hagwedd tuag at bobl mewn dyled, ac mai awdurdodau lleol yw rhai o'r prif gyrff sy'n ceisio dyfarniadau llys sirol, ynghyd â chwmnïau dŵr a darparwyr ffonau symudol.⁴⁸ Nododd hefyd fod pobl sydd mewn dyled yn ymateb yn wael i'r ffordd y mae sefydliadau cyhoeddus yn cyfathrebu â hwy, ac nad yw hyn bob amser yn arwain at y canlyniadau gorau.⁴⁹

32. Clywodd y Pwyllgor bryderon gan nifer o sefydliadau am y ffordd y mae awdurdodau lleol yn adennill dyled a'r defnydd o feiliaid, yn enwedig mewn perthynas â'r dreth gyngor.⁵⁰

33. Nododd Cyngor ar Bopeth fod ei gleientiaid wedi cael anawsterau o ran cytuno ar gynlluniau ad-dalu fforddiadwy, a bod rhai wedi bod yn destun ymddygiad ymosodol neu fychanol gan feiliaid, er eu bod yn methu â gwneud ad-daliadau neu'n arddangos arwyddion o fod yn agored i niwed.⁵¹ Galwodd y sefydliad ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i ystyried eto a oes angen gwneud defnydd aml o ddulliau llawdrwm o gasglu dyledion.⁵² Gwnaeth Rob Simkins o Shelter Cymru bwyntiau tebyg, gan nodi'r canlynol:

"We've seen bailiffs serving virtual warrants of control because they, obviously, can't attend properties, and making people FaceTime them so they can take them around the house and show them what they're going to take over FaceTime. That's unacceptable behaviour, poor practice and beyond dehumanising. And we've also had people be charged for visits. They get a letter through the door saying they're going to be visited during some of the most stringent lockdown restrictions. We're pushing people into making repayment plans they can't afford, we're setting

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Purple Shoots a Responsible Finance

⁴⁹ Ibid.

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Cyngor ar Bopeth**; Tystiolaeth ysgrifenedig, Shelter Cymru

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Cyngor ar Bopeth**

⁵² Ibid.

people up to fail and we're further exacerbating some of the societal inequalities that we're seeing in Wales already.”⁵³

34. Gwnaeth Lisa Hayward, a oedd yn rhoi tystiolaeth ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fynegi pryder ynghylch y dystiolaeth a roddwyd gan Shelter Cymru, a dywedodd y dylid codi cwynion penodol gyda'r awdurdod lleol perthnasol oherwydd mae'n bosibl eu bod yn torri'r rheolau o ran cytundebau lefel gwasanaeth neu godau ymddygiad.⁵⁴

35. Mae Sefydliad Bevan wedi galw ar Lywodraeth Cymru i osod dyletswydd atal dyled ar bob corff cyhoeddus datganoledig, mewn ffordd debyg i'r ddyletswydd atal digartrefedd sydd mewn grym.⁵⁵ Mae Sefydliad Bevan yn gweld hyn fel ffordd o sicrhau bod sefydliadau sector cyhoeddus yn mabwysiadu dull blaengar o reoli dyled, ac yn eu gwahardd rhag mabwysiadu arferion sy'n gwaethygu dyled broblemus.⁵⁶

36. Nododd papur y Gweinidog fod pob awdurdod lleol wedi cytuno i weithredu Protocol Treth Gyngor Cymru sy'n nodi "arferion da i awdurdodau lleol ac asiantaethau cyngor ar ddyledion eu dilyn er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur, yn deg ac yn gyson."⁵⁷ Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud bod ei swyddogion yn gweithio gyda'r diwydiant dŵr a rhanddeiliaid i archwilio effaith bosibl cyflwyno un tariff cymdeithasol ar gyfer dŵr a'i gwneud yn haws i bobl sy'n cael anawsterau wrth dalu eu bil dŵr wneud cais am gymorth.⁵⁸

37. Awgrymodd Sefydliad Bevan y gellid ystyried 'coelcerth dyledion' yn yr hinsawdd bresennol, o gofio mai'r rhai sydd fwyaf dan anfantais yng nghyfnod y pandemig yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Dywedodd fod cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei wneud, ond y gellid ystyried diddymu rhywfaint o ddyled treth gyngor pobl.⁵⁹

38. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod cyflwyno 'coelcerth dyledion' yn fater anodd, gan fod angen ystyried pwy sydd o ddifri mewn sefyllfa lle nad ydynt yn gallu

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 88 – 4 Hydref 2021

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 91-93 – 4 Hydref 2021

⁵⁵ Sefydliad Bevan, '[Debt in the Pandemic](#)' – Medi 2021

⁵⁶ Sefydliad Bevan, '[Debt in the Pandemic](#)' – Medi 2021

⁵⁷ [Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru](#)

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 292 – 4 Hydref 2021

talw'r ddyled, a phwy sy'n amharod i'w thalu.⁶⁰ Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod awdurdodau lleol yn aml yn diddymu dyledion.⁶¹

Dyled Treth Gyngor

39. Y broblem fwyaf cyffredin o ran dyled a godwyd gyda Chyngor ar Bopeth yn 2020 oedd dyled treth gyngor. Tynnodd y sefydliad sylw at ddata diweddar Llywodraeth Cymru sy'n dangos bod cyfanswm yr ôl-ddyledion treth gyngor wedi codi i £156.6 miliwn yn 2020-21, sef cynnydd o £46.4 miliwn o gymharu â 2019-20.⁶² Dyma'r cynnydd blynyddol mwyaf mewn dros 20 mlynedd.⁶³ Mae Cyngor ar Bopeth wedi awgrymu gwella arferion casglu'r dreth gyngor er mwyn sicrhau nad yw pobl sydd wedi cronni ôl-ddyledion yn cael eu gwthio ymhellach i ddyled, ac i helpu awdurdodau lleol i sicrhau nad yw aelwydydd incwm isel yn ysgwyddo baich ôl-ddyledion treth gyngor nad oes modd eu hadennill.⁶⁴

40. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod dau fath o ddyledwr treth gyngor ar y cyfan, sef 'methu talu' a 'gwrthod talu'.⁶⁵ Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Gymdeithas fod colli'r broses draddodi wedi creu problemau i awdurdodau lleol, gan fod y broses yn 'gorfodi' dyledwyr i fynd i'r afael â'u materion ariannol.⁶⁶ Wrth ymateb i'r Pwyllgor ynglŷn â'r mater hwn, eglurodd y Gymdeithas nad oedd am weld y sefyllfa'n dychwelyd i bobl yn cael eu hanfon i'r carchar am beidio â thalu'r dreth gyngor, ond bod y broses draddodi yn ddefnyddiol o ran sicrhau dealltwriaeth well o sefyllfa ariannol y dyledwr.⁶⁷

41. Dywedodd Dr Steffan Evans o Sefydliad Bevan y dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu dull tebyg i'r Grant Caledi i Denantiaid er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o ran dyled treth gyngor, lle mae pobl yn talu rhywfaint o'u dyled ac mae'r wladwriaeth yn talu'r gweddill.⁶⁸

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 57 – 4 Hydref 2021

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 96 – 20 Hydref 2021

⁶² Llywodraeth Cymru, **Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** – 13 Gorffennaf 2021

⁶³ Llywodraeth Cymru, **Cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor: Ebrill 2020 i Fawrth 2021** – 13 Gorffennaf 2021

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Cyngor ar Bopeth**

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 57 – 4 Hydref 2021

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 74 – 4 Hydref 2021

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 292 – 4 Hydref 2021

42. Galwodd nifer o dystion am gryfhau Protocol Treth Gyngor Cymru – sy'n amlinellu arferion da wrth gasglu treth gyngor.⁶⁹ Galwodd Karen Davies o Purple Shoots am gyflwyno fframwaith cenedlaethol i awdurdodau lleol, gan ei bod yn ofynnol i sefydliadau eraill sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol weithredu o fewn fframwaith i adennill dyledion.⁷⁰ Galwodd Cyngor ar Bopeth ar Lywodraeth Cymru i werthuso'r protocol, tra dywedodd Peter Tutton o StepChange y canlynol wrth y Pwyllgor:

*"In terms of one line, a couple of things there: a set of binding common standards that have got a bit of detail in about the fine detail of forbearance is really important. We've seen over the last few years how important that's been in areas like consumer credit, where having really good, firm roles that set out very clearly how creditors should respond to people in difficulty has made a lot of difference."*⁷¹

43. Trafododd nifer o gyfranogwyr grŵp ffocws y cynnydd graddol o ran beiliaid yn gweithredu, a rhannodd rhai cyfranogwyr eu pryderon ynghylch y ffordd y cymerir camau o'r fath.⁷² Mynegodd rhai cyfranogwyr bryder hefyd ynglŷn â natur frys y camau a gymerwyd gan gynghorau ynghylch ôl-ddyledion treth gyngor, a gofynnwyd a allai Llywodraeth Cymru annog cynghorau i fod yn fwy amyneddgar.⁷³

44. Cadarnhaodd y Gweinidog yn ystod tystiolaeth lafar y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl gamau sy'n cael eu cymryd i leihau'r pwysau ar bobl sy'n agored i niwed mewn perthynas â'r dreth gyngor ac y byddai hyn yn cynnwys adolygiad o'r protocol.⁷⁴

Ein barn ni

Adennill dyled a'r Protocol Treth Gyngor

Mae ein gwaith wedi bwrw goleuni ar sut mae trethi lleol, datganoledig fel y Dreth Gyngor yn cael eu rheoli a'u casglu. Nodwn fod awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd mawr mewn ôl-ddyledion Treth Gyngor ers dechrau'r pandemig. Yn amlwg, mae gan

⁶⁹ **Protocol Treth Cyngor Cymru**; Cofnod y Trafodion, paragraff 190 – 20 Medi 2021

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 238 – 4 Hydref 2021

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 197 – 20 Medi 2021

⁷² **Crynodeb o'r grwpiau ffocws**

⁷³ Ibid.

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 58 – 20 Hydref 2021

awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus berffaith hawl i gymryd camau i ddiogelu ffrydiau refeniw sy'n hanfodol ar gyfer ariannu ein gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rhaid i'r camau penodol a ddefnyddir i ddiogelu refeniw – yn enwedig yng nghyd-destun pandemig a chyfnodau o galedi economaidd – fod yn gymesur ac yn ystyriol o anghenion a phryderon pobl. Er bod awdurdodau lleol ar y cyfan yn casglu ôl-ddyledion mewn ffordd gyfrifol, mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod rhai enghreifftiau o arferion gwael sy'n destun pryder ac y dylid rhoi sylw pellach iddynt yn ein barn ni.

Tynnwyd sylw at BroTOCOL Treth Gyngor Cymru yn rheolaidd fel un ffordd o sicrhau y caiff arferion da eu defnyddio'n gyson ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru ac rydym yn croesawu'r adolygiad o'i weithrediad sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Credwn y dylai'r adolygiad hwn ystyried a oes angen cryfhau'r Protocol, gan gynnwys a fyddai'n fuddiol gosod y Protocol ar sail statudol.

Er ein bod yn cydnabod pryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod pobl weithiau'n amharod i dalu yn hytrach nag yn methu â thalu dyledion i sefydliadau sector cyhoeddus, credwn fod y syniad o 'goelcerth dyledion' yn un sy'n werth ei ystyried ymhellach i weld a ellid ei roi ar waith.

Argymhelliad 6. Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o BroTOCOL Treth Gyngor Cymru asesu a ddylid cryfhau'r Protocol, gan gynnwys a ddylid ei roi ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn fel mater o frys a'i gwblhau erbyn mis Mehefin 2022 fan bellaf.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb cyflwyno 'coelcerth dyledion' mewn perthynas ag agweddau ar ddyled sector cyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thu hwnt, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i gasgliadau erbyn diwedd Mehefin 2022.

4. Dyled tai

45. Maes allweddol arall a ystyriwyd yn ystod yr ymchwiliad oedd effaith y pandemig ar dai, dyled tai a throi allan. Dywedodd Cartrefi Cymunedol Cymru y gwelwyd cynnydd o 22 y cant yn nifer y tenantiaid a oedd â mwy na 13 wythnos o rent yn ddyledus i'w cymdeithas tai yn y flwyddyn yn dilyn mis Mawrth 2020.⁷⁵

46. Roedd ffigurau a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dangos bod ôl-ddyledion rhent presennol ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol yn cyfateb i 3.8 y cant o'r rhent dyledus blyneddol, o'i gymharu â 3 y cant cyn y pandemig.⁷⁶

Troi allan

47. Ar ddechrau'r pandemig, gwnaeth landlordiaid cymdeithasol ymrwymiad gwirfoddol i beidio â throi allan denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol o ganlyniad i COVID-19.⁷⁷ Cymerwyd nifer o fesurau i atal troi allan ar draws y sector rhentu cyfan, a chafodd y mesurau hyn eu hestyn gan reoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Daeth y cyfnod atal troi allan i ben ym mis Mehefin 2021.

48. Yn ogystal ag atal troi allan, ers dechrau'r pandemig mae gofyniad dros dro wedi bod ar waith i roi cyfnod hysbysu estynedig i'r rhan fwyaf o denantiaid y sector rhentu cymdeithasol a phreifat cyn ceisio meddiannu drwy'r llysoedd. Y cyfnod hysbysu estynedig yw 6 mis ar hyn o bryd. Fel arfer, byddai gan denantiaid yn y sector rhentu preifat hawl i ddim ond dau fis o rybudd mewn achosion o droi allan 'heb fai'. Mae nifer o sefydliadau wedi tynnu sylw at y ffaith y bydd gan y grŵp hwn o denantiaid hawl i chwe mis o rybudd yn barhaol pan fydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Deddf 2016) yn cychwyn.⁷⁸ Rydym yn deall y dylai hyn ddigwydd yn 2022. Yn ystod tystiolaeth lafar, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd cyfnodau hysbysu hwy yn parhau i fod ar waith tan ddiwedd eleni.⁷⁹ Fodd bynnag, eglurodd fod y darpariaethau hyn wedi'u gwneud o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020 ac nad oedd yn gallu cadarnhau a fyddai bwlch rhwng diwedd y darpariaethau presennol a'r dyddiad pan fydd Deddf 2016 yn dod i rym ai peidio.⁸⁰

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, **Cartrefi Cymunedol Cymru**

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

⁷⁷ Cartrefi Cymunedol Cymru, **Cefnogi tenantiaid trwy'r argyfwng**

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Shelter Cymru; Cyngor ar Bopeth

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 84 – 20 Hydref 2021

⁸⁰ Paragraff 84-87 – 20 Hydref 2021

49. Dadleuodd Shelter Cymru a Chyngor ar Bopeth y dylid cymryd camau i osgoi unrhyw fwch o ran cyfnodau hysbysu i denantiaid. Dywedodd Shelter Cymru y byddai'r dull hwn yn amddiffyn tenantiaid ac yn helpu i osgoi dryswch, tra bod Cyngor ar Bopeth wedi dweud y byddai dychwelyd i gyfnod rhybudd o ddau fis ar gyfer troi allan 'heb fai' hyd nes y daw'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i rym yn gadael mwy o bobl mewn perygl o gael eu troi allan ar fyr rybudd, yn ogystal â drysu tenantiaid a landlordiaid ill dau.⁸¹

50. Dywedodd Dr Steffan Evans o Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor er bod dyled tai wedi cynyddu, nad oedd wedi cynyddu cynddrwg ag yr oeddent wedi ofni.⁸² Tynnodd Dr Evans sylw'r Pwyllgor at y rôl yr oedd landlordiaid cymdeithasol yn arbennig wedi'i gyflawni drwy fabwysiadu dulliau blaengar o helpu pobl. Awgrymodd fod cymdeithasau tai yn gweld ôl-ddyledion rhent fel 'baner goch' ac yn arwydd bod rhywbeth arall yn mynd ymlaen, yn hytrach nag achos syml o rywun yn gwrthod talu ei rent lle byddai'n briodol anfon llythyrau bygythiol.⁸³

51. Nododd Shelter Cymru fod nifer yr hysbysiadau Adran 21 (hysbysiadau 'heb fai') yr oedd yn ymdrin â hwy ym mis Gorffennaf 2021 yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.⁸⁴ Dywedodd Rob Simkins o Shelter Cymru hefyd wrth y Pwyllgor fod achosion o droi allan anghyfreithlon wedi digwydd yn ystod y pandemig a'i fod wedi cael gwybod bod yr heddlu wedi cynorthwyo gyda'r broses o droi allan mewn rhai achosion.⁸⁵ Rhoddodd Shelter Cymru ddadansoddiad manwl i'r Pwyllgor o'r achosion a gafwyd ym mhob ardal heddlu ledled Cymru, gyda chrynodebau dienw o achosion cleientiaid.⁸⁶

52. Mewn ymateb i'r mater o'r heddlu'n cymryd rhan mewn achosion o droi allan anghyfreithlon, mynegodd y Gweinidog bryder enfawr ac addawodd y byddai'n codi'r materion a amlygwyd gan y Pwyllgor mewn tystiolaeth gyda Dafydd Llywelyn yn ei rôl fel Cadeirydd grŵp plismona Cymru gyfan.⁸⁷

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Shelter Cymru; Cyngor ar Bopeth

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 314 – 4 Hydref 2021

⁸³ Ibid.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 86 – 4 Hydref 2021

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Shelter Cymru

⁸⁶ Shelter Cymru, 'Shelter Cymru Report on Police Assistance/Inaction in Illegal Eviction and Harassment' – Hydref 2021

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 90 – 20 Hydref 2021

Grant caledi i denantiaid

53. Fel rhan o'i phecyn cymorth i denantiaid, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun grant caledi newydd i denantiaid, gwerth £10 miliwn.⁸⁸ Croesawodd Shelter Cymru y ffaith bod y Benthyciad Arbed Tenantiaeth wedi cael ei ddisodli gan y Grant Caledi i Denantiaid i denantiaid yn y sector preifat gan fod hyn yn cael effaith ar unwaith o ran lleihau'r problemau dyled y mae pobl yn eu hwynebu. Fodd bynnag, ychwanegodd ei bod fwy na thebyg yn rhy gynnar i asesu effaith y cynllun.⁸⁹

54. Tra bod Sefydliad Bevan hefyd yn croesawu'r cynllun grant, galwodd am iddo gael ei estyn i denantiaid tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai. Esboniodd Dr Steffan Evans:

"In terms of the support available for those social renters who are in work, and I think they're a group that's often forgotten about. When social rents go up and above inflation, that's fine if you receive full support towards your housing costs, because your costs are covered in full. But, if you're hit by the benefit cap, or if you're in work but happen to be renting in the social sector and don't get full support with the Universal Credit, you have to find that money yourself, and that's a group that I think is often forgotten about when we're talking about rent. But also, that's a group that isn't eligible for any support at the moment. So, the Tenancy Hardship Grant is only in the private rental sector, and DHPs are only if you receive social security support. So, I think there's a case there to look again at the hardship grant to see if that can be extended into the social sector, so that that group isn't forgotten about as we look towards the recovery."⁹⁰

55. Er bod rhai grwpiau ffocws yn croesawu nod y Benthyciad Arbed Tenantiaeth, neu'r Grant Caledi i Denantiaid erbyn hyn, roeddent yn feirniadol o'r meini prawf cymhwysra llym. Dywedodd un cyfranogwr o Fro Morgannwg:

"Fe wnaethon nhw gyflwyno'r Benthyciad Arbed Tenantiaeth neu'r Grant Arbed Tenantiaeth. Rwy'n credu bod hynny'n llawer rhy gyfyngol. Dwi

⁸⁸ Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, **Cynllun grant newydd gwerth £10 miliwn i helpu pobl sy'n cael trafferth talu eu rhent yn ystod y pandemig** – Mehefin 2021

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Shelter Cymru

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 316 – 20 Hydref 2021

*ddim yn adnabod bron neb sydd wedi gwneud cais llwyddiannus ...
oherwydd y meini prawf y mae'n rhaid i chi eu bodloni i fod yn gymwys.
Felly mae ar gael, ac unwaith eto, efallai bod gennych chi'r ystadegau yn
ei gylch, ond dwi ddim yn credu bod llawer o bobl yn gwneud cais am y
grantiau hyn mewn gwirionedd...Rwy'n gwybod pan dwi'n mynd drwy'r
meini prawf gyda chleientiaid, prin yw'r adegau pan fydd rhywun yn
bodloni'r meini prawf cymhwysedd.”⁹¹*

56. Wrth roi tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog ei bod yn deall y pwynt ynghylch cymhwysra ar gyfer y grant caledi i denantiaid i'r rhai mewn tai cymdeithasol sydd mewn gwaith, ond ni roddodd sicrwydd pendant ynghylch mynd i'r afael ag unrhyw fylchau posibl o ran cymhwysra.⁹²

Ein barn ni

Troi allan

Rydym yn pryderu'n fawr am achosion honedig y mae Shelter Cymru wedi tynnu ein sylw atynt o'r heddlu'n cymryd rhan mewn achosion o droi allan anghyfreithlon. Yn y dystiolaeth a ddarparwyd yng nghyflwyniad Shelter, gwnaethom ddarllen am honiadau o'r heddlu yn cymryd rhan yn yr achosion hyn ar gam, gyda digwyddiadau ym mhob ardal heddlu yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog yn rhannu'r pryderon hyn ac yn ddiolchgar iddi am gytuno i godi'r mater hwn gyda'i chymheiriaid yn yr heddlu. Mae'n amlwg bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth ymhlith heddluoedd o'r sefyllfa yng Nghymru a'u cyfrifoldebau o dan gyfraith Cymru. Nodwn y cynigion a wnaed gan Shelter Cymru i roi cyngor a hyfforddiant i heddluoedd.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau cadarn – yn seiliedig ar y canfyddiadau a amlygwyd gan Shelter Cymru a gwaith y Pwyllgor hwn – i heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ynghylch yr angen i swyddogion yr heddlu gydymffurfio â chyfraith tai Cymru ac osgoi bod yn rhan o achosion o droi allan anghyfreithlon.

⁹¹ **Crynodeb o'r grwpiau ffocws**

⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 73 – 91 – 20 Hydref 2021

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau pellach y mae wedi'u cymryd i wella ymwybyddiaeth o gyfraith tai Cymru ymhlith swyddogion rheng flaen yr heddlu.

Casgliad 3. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at bob un o'r pedwar heddlu gyda chopi o'r adroddiad hwn ac yn gofyn iddynt ymateb i'n pryderon ynghylch yr heddlu'n cymryd rhan mewn achosion o droi allan.

Cyfnodau hysbysu

Mae cyfnodau hysbysu estynedig wedi bod yn ymyriad polisi allweddol ers dechrau'r pandemig ac wedi helpu i atal digartrefedd a chaledi diangen. Rydym yn cytuno y dylid gwneud pob ymdrech i osgoi unrhyw fwlch rhwng diwedd y rheoliadau dros dro presennol a wnaed o dan Ddeddf Coronafeirws 2020 a'r dyddiad y daw darpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi 2016 i rym. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ar frys a fydd cyfnodau hysbysu estynedig yn parhau y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2021 ac os felly, o dan ba statud. At hynny, mae'n bwysig nodi, er mai chwe mis fydd yr hysbysiad dim bai o dan y Ddeddf Rhentu Cartrefi, mai dim ond pythefnos fydd y cyfnod hysbysu ar gyfer ôl-ddyledion rhent difrifol. Credwn, felly, y dylai Llywodraeth Cymru gadw hyn mewn cof wrth gwblhau a chadarnhau ei chymau nesaf yn y maes hwn.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau ei bod yn defnyddio'r ysgogiadau deddfwriaethol neu bolisi sydd ar gael iddi fel nad yw tenantiaid ar draws pob deiliadaeth yn colli eu cartrefi oherwydd dyled a gronnwyd o ganlyniad i'r pandemig.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod y cyfnod hysbysu o chwe mis yn parhau i fod mewn grym hyd nes y daw Deddf Rhentu Cartrefi 2016 i rym.

Grant Caledi i Denantiaid

Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu, er bod llawer wedi croesawu'r grant caledi newydd i denantiaid, y gallai anawsterau o ran cymhwysra rwystro llwyddiant y grantiau hyn. Yn benodol, credwn fod angen mwy o waith i asesu a ellid ymestyn y cynllun neu a ddylid ei ymestyn er budd unigolion incwm isel ac aelwydydd mewn tai cymdeithasol a allai fod mewn ôl-ddyledion rhent o ganlyniad i'r pandemig ond nad ydynt yn cael budd-daliadau.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ymestyn y cynllun Grant Caledi i Denantiaid i gynnwys tenantiaid incwm isel mewn tai cymdeithasol nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

Credyd fforddiadwy

57. Gellir darparu credyd fforddiadwy drwy undebau credyd, Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol, cynlluniau sy'n cyfuno credyd â nwyddau hanfodol i'r cartref, a chynlluniau benthycwyr gyflogres a ddarperir mewn partneriaeth â chyflogwyr (a ddarperir yn aml gan undebau credyd).

58. Yn ei chyllideb ar gyfer 2021-22, dyrannodd Llywodraeth Cymru £1 miliwn ychwanegol ar gyfer undebau credyd i wella mynediad at gredyd fforddiadwy. Mae hefyd wedi neilltuo £500,000 ar gyfer treialu cynllun benthyciad di-log ar gyfer pobl nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu fforddio benthycia gan ddarparwr credyd fforddiadwy.⁹³ Datblygwyd y cynllun peilot hwn gan Fair4All Finance, a bydd yn cael ei gyflwyno mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.⁹⁴ Mae'r peilot yn debygol o weithredu mewn dwy i dair ardal yn Lloegr, ac un lleoliad ar draws pob un o'r gwledydd datganoledig. Bydd Fair4All Finance yn gweithio gydag undebau credyd, Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol, a benthycwyr eraill a reoleiddir, a fydd yn gallu gwneud cais i weinyddu'r benthyciadau drwy broses gaffael ffurfiol sy'n dechrau ym mis Tachwedd 2021.⁹⁵

59. Mae Undebau Credyd Cymru wedi galw am i'r cynllun peilot hwn gael ei redeg gan grŵp o undebau credyd i ddarparu gwasanaeth ym mhob ran o Gymru, a nododd ei fod yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu cynnig consortiwm i wneud hyn.

60. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Karen Davies o Purple Shoots y gall credyd fforddiadwy wneud gwahaniaeth mawr a bod undebau credyd yn rhagorol, ond nododd nad yw hi wedi dod ar draws llawer o bobl sydd â benthyciadau gyda hwy.⁹⁶ Awgrymodd mai un o'r prif resymau dros hyn oedd diffyg ymwybyddiaeth o undebau credyd a darparwyr cyfrifol eraill. Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Undebau Credyd Cymru,⁹⁷

⁹³ Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

⁹⁴ Fair4All Finance, Plans announced for new UK wide No Interest Loan Scheme pilot

⁹⁵ Ibid.

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Purple Shoots

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Undebau Credyd Cymru

tynnwyd sylw at y gwaith y maent yn ei wneud gydag Uned Benthycia Arian Anghyfreithlon Cymru i godi ymwybyddiaeth o fenthyciadau bach a gwasanaethau undebau credyd, gan gynnwys cysylltiadau cyhoeddus a hysbysebu.

61. Wrth roi tystiolaeth lafar, mynegodd darparwyr credyd fforddiadwy bryderon ynghylch pobl sy'n defnyddio Gorchmynion Rhyddhau o Ddyled a Chytundebau Gwirfoddol Unigol yn ddiangen. Tynnodd Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf sylw at arferion hyrwyddo a gwerthu ymosodol ar gyfer Cytundebau Gwirfoddol Unigol, a'r costau anghymesur sy'n gysylltiedig â hwy. Nododd Karen Davies fod cyngor gwael ar ddyled yn gallu bod yn waeth na dim cyngor ar ddyled. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"we've seen a worrying tendency for people to go into unnecessary individual voluntary agreements and debt relief orders, and they're done by predatory debt management companies who are looking to make profit from people in troubles...I think people need to understand that going into an IVA and a DRO is not an answer, because it's presented as one. And that's one of the biggest issues that we're seeing. Sometimes the debt that people are in is so small, it could have been managed—you know, under £5,000—and it's infuriating."*⁹⁸

Y Gronfa Cymorth Dewisol

62. Mae amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar y mae'r Pwyllgor wedi'i chael yn pwysleisio rôl allweddol y Gronfa Cymorth Dewisol (y Gronfa) yn ystod y pandemig, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau i'r Gronfa.⁹⁹ Croesawodd rhai tystion gan gynnwys Chwarae Teg a Cartrefi Cymunedol Cymru yr addasiadau i hyblygrwydd y Gronfa, gan alw hefyd am welliannau mwy parhaus i drefniadau cymorth.¹⁰⁰ Yn yr un modd, croesawodd StepChange yr hyblygrwydd ychwanegol, ond nododd:

*"...our experience of debt advice shows that over-indebtedness is often driven by repeat borrowing needs. Providing a viable alternative to desperation borrowing is likely to help prevent or mitigate debt problems."*¹⁰¹

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 231 – 4 Hydref 2021

⁹⁹ Senedd Cymru, [WQ81384 \(e\)](#)

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Chwarae Teg; Gwybodaeth ychwanegol, [Cartrefi Cymunedol Cymru](#)

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, StepChange

63. Galwodd nifer o sefydliadau am wella mynediad at y Gronfa Cymorth Dewisol. Nododd Lee Tiratira o'r Tîm Cymorth Ieuentid Ethnig fod y broses o wneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol yn un hir a chymhleth, a dadleuodd y gellid ei gwneud yn gyflymach ac yn fwy syml, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd wedi gwneud cais yn y gorffennol.¹⁰² Dywedodd Gwennan Hardy, o Gyngor ar Bopeth Cymru y canlynol wrth y Pwyllgor ynghylch y Gronfa Cymorth Dewisol:

*"it's had a much higher profile during the pandemic, and awareness of it is much more widespread, according to our advisers, so I think we'd be concerned that putting up more barriers might get in the way of that being very freely available and people being confident to refer people there."*¹⁰³

64. Esboniodd Rob Simkins o Shelter Cymru yr anawsterau y mae pobl yn eu cael wrth geisio profi eu bod yn gymwys ar gyfer y Gronfa, a galwodd am ddiddymu rhwystrau a mabwysiadu dull o ddarparu cymorth sy'n fwy seiliedig ar hawliau a'r unigolyn.¹⁰⁴

65. Gofynnwyd i gyfranogwyr grwpiau ffocws y Pwyllgor am eu barn ar y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Roedd y rhain yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn benodol, cyfeiriodd sawl unigolyn at y Gronfa Cymorth Dewisol fel menter a oedd wedi bod yn amhrisiadwy i nifer o'i gleientiaid.¹⁰⁵

66. Dywedodd Dr Steffan Evans wrth y Pwyllgor y gellid gwneud mwy o fewn y pwerau presennol i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, a bod achos dros geisio ymestyn a phrif ffrydio'r hyblygrwydd gan nad oedd pryderon am Lywodraeth y DU yn adfachu arian a dalwyd i ymgeiswyr wedi digwydd pan oedd yr hyblygrwydd wedi'i ymestyn dros dro.¹⁰⁶

67. Mae'r Gweinidog wedi dweud yn flaenorol wrth y Pwyllgor y bydd yr hyblygrwydd ar gyfer y Gronfa yn cael ei ymestyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022, a bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr hyblygrwydd yno i alluogi mynediad i bobl mewn angen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal cynllun peilot sy'n cyfeirio'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n gwneud cais i'r Gronfa at gyngor a chymorth ychwanegol er mwyn mynd i'r

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 131-132 – 4 Hydref 2021

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 216 – 20 Medi 2021

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 65 – 4 Hydref 2021

¹⁰⁵ Crynodeb o'r grwpiau ffocws

¹⁰⁶ Paragraff 335 – 4 Hydref 2021

afael â phroblemau ariannol sylfaenol a gwella cydnerthedd ariannol.¹⁰⁷ Mae papur y Gweinidog hefyd yn nodi y bydd cymorth ar gael i bobl sy'n defnyddio tanwydd oddi ar y grid dros y gaeaf.¹⁰⁸

68. Soniodd tystion hefyd am ddatganoli pellach i Gymru ym maes lles. Dywedodd Dr Steffan Evans wrth y Pwyllgor fod lle i edrych ar hyn, a bod yr ymchwiliad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn edrych ar hyn fel rhan o ymchwiliad presennol.¹⁰⁹ Yn yr un modd, dywedodd Cerys Furlong o Chwarae Teg fod angen edrych ar ddatganoli lles fel ffordd o ddatblygu system fudd-daliadau fwy cydlynol i Gymru lle gall pobl gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn haws.¹¹⁰

Ein barn ni

Credyd fforddiadwy

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae arwyddion economaidd cynyddol o 'storm berffaith' y gaeaf hwn, sy'n awgrymu y gallai'r galw am gredyd a lefelau dyled godi. Mae darparwyr credyd fforddiadwy, yn enwedig undebau credyd, yn cynnig opsiwn llawer mwy diogel na benthycwyr anghyfreithlon, neu ddarparwyr credyd â chyfraddau llog uchel. Fodd bynnag, nid yw pawb yn ymwybodol o'r gwasanaethau y mae undebau credyd ac eraill yn eu cynnig; ac mae angen gwaith pellach ynghylch sut i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn, yn enwedig ymhlith y grwpiau sydd fwyaf agored i niwed ac mewn perygl.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn sut y mae'n bwriadu hyrwyddo ffynonellau credyd fforddiadwy ymhlith y rhai sydd mewn mwy o berygl o ddyled dros y chwe mis nesaf.

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth fod llawer o randdeiliaid wedi croesawu'r hyblygrwydd a gyflwynwyd i'r Gronfa Cymorth Dewisol, ac yr hoffent weld yr hyblygrwydd yn dod yn barhaol. Yn benodol, nodwn y newidiadau sy'n galluogi ymgeiswyr i gael pum taliad cymorth brys y flwyddyn yn hytrach na'r tri arferol, a gallu ymgeiswyr i wneud cais am

¹⁰⁷ Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru

¹⁰⁸ Ibid.

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 306 – 4 Hydref 2021

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 172 – 4 Hydref 2021

grant ychwanegol saith diwrnod ar ôl iddynt gael un yn hytrach na'r 28 diwrnod arferol. Cytunwn â barn rhanddeiliaid y dylid gwneud yr hyblygrwydd a gyflwynwyd i'r Gronfa o ganlyniad i'r pandemig yn barhaol.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyblygrwydd a gyflwynwyd i'r Gronfa Cymorth Dewisol o ganlyniad i'r pandemig yn nodwedd barhaol o'r gronfa.

O ran dyfodol lles a budd-daliadau yn y tymor hwy yng Nghymru, rydym yn croesawu gwaith parhaus Llywodraeth Cymru i archwilio datganoli pellach ym maes lles, ac edrychwn ymlaen at glywed canlyniad ei thrafodaethau.

O ran dyfodol tymor hwy y Gronfa Cymorth Dewisol, nodwn gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu manyleb ar gyfer contract gweithredu newydd i'r Gronfa o fis Ebrill 2023. Wrth baratoi ar gyfer y gwaith hwn, credwn y byddai'n fuddiol cynnal adolygiad o'r Gronfa Cymorth Dewisol ar ei ffurf bresennol, gan gynnwys edrych ar y meini prawf cymhwysra, symleiddio'r broses o wneud cais, a sicrhau bod canllawiau sy'n gysylltiedig â cheisiadau yn cael eu hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir.

Argymhelliad 14. Er mwyn llywio'r gwaith paratoi ar gyfer contract newydd y Gronfa Cymorth Dewisol o fis Ebrill 2023, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r Gronfa ar ei ffurf bresennol i gynnwys:

- adolygiad o feini prawf cymhwysra;
- opsiynau ar gyfer symleiddio'r broses o wneud cais; ac
- adolygiad o'r canllawiau sy'n gysylltiedig â cheisiadau er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon hawdd eu deall a'u bod wedi'u hysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg clir.